

Blas Dyfi - Adroddiad

Prosiect dan ofal ecodyfi i hwyluso clwstwr o fusnesau bwyd a diod ym Miosffer Dyfi UNESCO

Crynodeb

Daeth y prosiect yma ar adeg pryd roedd diddordeb a brwdfrydedd cynyddol ynghylch bwyd a diod â tharddiad lleol. Mae wedi hwyluso diffiniad brand y gall tyfwyr, cyflenwyr a defnyddwyr masnachol cynnyrch lleol ei arddel. Mae 'Blas Dyfi – Cynhyrchwyd o fewn Biosffer UNESCO' yn is-frand o Fiosffer Dyfi.

Gall busnesau priodol ddangos eu hymrwymiad i gynnyrch lleol, ffres a thymhorol drwy ddefnyddio'r brand ar ddeunydd pacio cynnyrch priodol, ar fwydlenni a gwefannau yn ogystal ag yn eu hadeiladau.

Penderfynwyd ar y meini prawf cymhwystra ar y cyd â busnesau cyfranogol. Mae sticeri i ffenestri, sticeri papur bach (ar gyfer bwydlenni neu jariau ac yn y blaen) a chardiau 'pabell' (ar gyfer byrddau) wedi'u cynhyrchu ynghyd â ffeiliau logo a gwybodaeth am Fiosffer Dyfi. Rhoddir sylw i gyfranogwyr ar <https://www.biosfferdyfi.cymru/bwyd-a-diod>.



Mae nifer sylweddol o berchnogion caffis a bwytai a rhai manau gwerthu yn ardal Biosffer Dyfi UNESCO yn awyddus i ddefnyddio mwy o gynnyrch lleol a'i hyrwyddo i gwsmeriaid. Mae rhai cynhyrchwyr (tyfwyr yn bennaf) yn bartneriaid bodlon, ond da byw yw'r rhan fwyaf o'r cynhyrchu sydd wedi'i addasu ar gyfer marchnadoedd mwy o faint y tu allan i'r ardal. Mae sector garddwriaeth lleol yn tyfu'n gyflym, yn rhannol oherwydd y galw ychwanegol a ysgogwyd gan argyfwng COVID-19 ond mae'n dechrau o fan cychwyn bychan iawn.

Mae'r manteision posibl yn cynnwys mwy o alw am gynnyrch lleol gan fusnesau lletygarwch, gwella hyfywedd tyfwyr a phroseswyr, ynghyd â busnes ychwanegol i gaffis a bwytai cyfranogol. Gwerthfawr hefyd yn ei rinwedd ei hun yw'r cynnydd o ran proffil ac ymwybyddiaeth o werth cynnyrch lleol a'i gysylltiadau ag arferion amaethyddol, garddwriaethol ac amgylcheddol da.

Buddion uniongyrchol y prosiect ei hun sy'n darparu'r llwyfan ar gyfer cyflwyno'r manteision hyn: mwy o gydweithrediad rhwng busnesau, y brand a'r offer i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, bychain yw'r busnesau ac maent yn ei chael yn anodd rhoi o'u hamser i gydweithredu. Hefyd mae rhywfaint o raniad o hyd rhwng cymuned fusnes Aberystwyth a Bro Ddyfi. Rhywbeth go iawn yw'r rhwydwaith bwyd lleol, ond mae'n anffurfiol.




A. Cefndir

Comisiynwyd y gwaith hwn fel rhan o Brosiect Datblygu Cydweithrediad Biosffer Dyfi, prosiect peilot dwy-flynedd a gefnogir drwy'r cynllun LEADER. Cefnogir y prosiect yma ar y cyd gan Grwpiau Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi (Ceredigion), Arwain (Powys) ac Arloesi Gwynedd. Mae'r holl ardaloedd hyn yn darparu cymorth ariannol a chefnogaeth o ran gweithredu. Cynnal y Cardi yw'r partner arweiniol.

Derbyniodd y prosiect hwn gyllid drwy Gronfa Cymunedau Gwledig Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020 a gyllidir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Fe'i hariennir yn rhannol hefyd gan Gyngor Gwynedd, yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys.

Bu'r gwaith yn ategu llawer o brif egwyddorion LEADER yn unol â manylion y diagram isod:

- Gweithio o'r gwaelod at i fyny – er mai ecodyfi a hwylusodd y broses, y busnesau cyfranogol a arweiniodd ar ddiffinio'r meini prawf ar gyfer cyfranogaeth er enghraifft;
- Arloesi – Biosffer Dyfi yw'r unig ardal yng Nghymru sydd â statws "Gwarchodfa Fiosffer" drwy UNESCO a dyma oedd yr ymgais cyntaf i ddwyn at ei gilydd gynhyrchwyr a defnyddwyr bwyd a diod yn yr ardal hon;
- Rhwydweithio a chydweithredu – mae'r busnesau dan sylw'n pontio ffiniau sirol Gwynedd, Powys a Cheredigion a daeth y rhwydweithio â'r rheini sy'n ffurfio clwstwr naturiol o gwmpas Machynlleth a busnesau Aberystwyth ynghyd.



Mae yna dueddiad ar draws y DU i ymwelwyr a phobl lleol chwilio am fwyd a diod o darddiad lleol, fel rhan o ddi-ddordeb ehangach mewn profiadau dilys sy'n seiliedig ar le. Nid yw ardal Biosffer Dyfi'n manteisio ar hyn yn dda iawn er gwaethaf tipyn o gynnyrch rhagorol. Mae



busnesau caffis a bwytai yn awyddus i edrych ar sut i gydweithredu o gwmpas yr agenda yma. A allai cysylltiad â brand Biosffer Dyfi fod yn ddefnyddiol?

Nod y comisiwn hwn oedd ysbrydoli a chefnogi'r datblygiad parhaus drwy weithgarwch ysgogi ar ran LEADER o glwstwr bwyd a diod bach a ddaeth i'r fei yn ystod dau gyfarfod cychwynol a gynhaliwyd gan Brosiect Datblygu'r Biosffer ym mis Mehefin a Gorffennaf 2017. Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn aelodau o Gymdeithas Dwristiaeth Biosffer Dyfi. Roedd y momentwm wedi'i golli yn sgil ymadawiad y swyddog prosiect ond roedd yr ewyllys da yn para.

B. Gweithgareddau a chydweithredu

Roedd y broses ymgysylltu'n golygu cysylltiadau un-i-un drwy e-bost, ffôn ac wyneb yn wyneb. Roedd hyn yn cynnwys dau ddiwrnod o fynd i gaffis a bwytai yn Aberystwyth gan siarad â'r perchnogion, rheolwyr a staff eraill, pwy bynnag oedd ar gael. Cafwyd cyfweiliad â pherchenog y Tŷ Coed.



Digwyddiad arddangos yn yr Wynnstey 06/2018

Cynhaliwyd cyfarfodydd clwstwr 16 Ebrill 2018, 17 Mai 2018 ac 20 Mai 2019.

Cynhaliwyd digwyddiadau arddangos i ddod â chyflenwyr a phrynwyr ynghyd ym Machynlleth 28 Mehefin 2018 ac yn Aberystwyth 5 Rhagfyr 2018.

O'r broses ymgysylltu, crëwyd rhwydwaith o gynhyrchwyr a chyflenwyr ar *Google Docs* fel y gallai pob busnes fynd ato ac ychwanegu eu hargymhellion at y rhestr. Daeth y cofnodion cyntaf o hen gyfeiriadur Bwyd a Diod yng Nghanolbarth Cymru a gyhoeddwyd gan Bartneriaeth Dwristiaeth Canolbarth Cymru. At hyn ychwanegwyd gwybodaeth a ddarparwyd gan drefnwyr Gwyliau Bwyd a chan brosiect a ariannwyd gan LEADER yng Ngwynedd.

Cynhaliwyd ymchwil i'r farchnad ynglŷn â gŵyl fwyd a diod i Fiosffer Dyfi yng Ngŵyl Fwyd Aberystwyth 28 Mehefin 2018 ac mewn digwyddiad gan Cywain yng Nghanolfan Grefftau Corris 13 Tachwedd 2018. Cynhaliwyd trafodaethau wedyn â pherchennog Canolfan Arddio Camlan oedd wedi trefnu Gŵyl Fwyd a Ffermio yng Nghwmlline.

Roedd y cyhoeddusrwydd yn cynnwys datganiad i'r wasg a facebook ond roedd yr ymdrech fwyaf drwy gysylltiad uniongyrchol gan gynnwys e-bost, y ffôn ac ymweliadau â busnesau lletygarwch, yn enwedig ym Machynlleth ac Aberystwyth.



Bu ecodyfi'n cydweithredu â'r prosiect Llwybrau at Ffermio a reolir gan y fenter gymdeithasol Mach Maethlon gyda chefnogaeth gan Arwain (LEADER ym Mhowys).

<https://www.machmaethlon.org/pathways-to-farming/> Prif nod y prosiect hwnnw yw ehangu cyflenwad cynnyrch a dyfir yn lleol drwy hyfforddi a mentora garddwriaethwyr newydd ac, yn ail, ymchwilio i farchnadoedd lleol newydd ar gyfer cynnyrch o'r fath. Cyflwynodd ecodyfi waith clwstwr y Biosffer yn eu digwyddiad "Marchnadoedd Newydd" lle y trafodwyd brandio a materion eraill.

Arweiniodd cydweithredu â phrosiect Blas Cambria Ymgynghoriaeth Howell a ariennir gan TAIS at Nerys Howell yn cyflwyno cyngor 'cymhorthfa' yn ein Digwyddiad Arddangos ym Machynlleth ac at gysondeb rhwng y meini prawf newydd i glystyrau Dyfi a Cambria.

Arweiniodd y broses cyd-gynllunio gyda busnesau lleol at ddiffinio "Blas Dyfi" fel is-frand o Fiosffer Dyfi. Ers hynny, mae hwnnw wedi'i gynnig i fusnesau a chyflenwyr fel cyfle i gydffrandio ochr yn ochr â'u brandio cynnyrch a busnes eu hunain. Drwy'r broses ysgogi, diffiniwyd meini prawf ar gyfer cyfranogi/defnyddio'r brand a chynhyrchwyd 'pecyn cymorth' o logos, sticeri a gwybodaeth am y Biosffer. Dyma gyfle i beilotio a phrofi'r pecyn cymorth a'r brand drwy'r comisiwn hwn. Roedd hefyd yn gyfle i gael adborth am beth allai weithio i fusnesau lleol o ran cyflenwyr a chynhyrchwyr. O hyn, cyhoeddir astudiaethau achos fel rhan o'r gwerthuso cyffredinol sy'n digwydd fel rhan o brosiect cydweithredu Biosffer Dyfi.

C. Y Busnesau Dan Sylw

O'r rheini a ddarparodd dystiolaeth ysgrifenedig ynglŷn â'u hymwneud â'r prosiect, bu 37 o fusnesau'n cymryd rhan mewn gwahanol gyfarfodydd a digwyddiadau a bu ymgynghori ag 11 o randdeiliaid eraill. Ymhlith y prif gyfranogwyr lletygarwch roedd Caffi Cletwr, Tre'r-ddôl, Caffi Crochan yn Labyrinth y Brenin Arthur, Corris, Caffi Pen Dinas yn y Llyfrgell Genedlaethol a'r Caffi yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen. Siaradwyd â 43 o fusnesau eraill.

Ymhlith y cynhyrchwyr, mae Jo's Veg ym Mhennant yn defnyddio'r brand ar ddeunydd pacio ei lysiau. Mae Wainwright's Honey wedi cytuno i ddefnyddio sticeri'r brand ar jariau mêl lleol dethol a bydd Felin Ganol yn ystyried hyn ar gyfer deunydd pacio eu blawd. Mae llawer iawn mwy o bosibiliadau.



D. Cyfleoedd, argymhellion a'r camau nesaf

Er bod yna frwdfrydedd, bydd rhaid i hyn arwain at gofrestru ffurfiol a chyfranogi gweithredol ar ran mwy o fusnesau er mwyn datblygu ymwybyddiaeth a gwerth i gwsmeriaid. Gwneir hyn mewn partneriaeth gan ecodyfi (ar ran Biosffer Dyfi) a'r prosiect Llwybrau at Ffermio a gyflwynir gan Mach Maethlon.

<https://www.machmaethlon.org/cy/2020/03/19/bwydo-ein-cymuned>

Mae'r cydweithrediad rhwng Llwybrau at Ffermio a'r Biosffer (drwy ecodyfi) yn cynnig llwybr at ddatblygu yn y dyfodol. Yn benodol, mae Llwybrau at Ffermio wedi penderfynu hyrwyddo Blas Dyfi yn hytrach na chreu ei frand bwyd lleol ei hun. Bydd Katie Hastings o Llwybrau at Ffermio yn gwneud hyn pan fydd hi'n ymweld â busnesau lletygarwch yn Nyffryn Dyfi a bydd ecodyfi'n dilyn hyn drwy ofyn iddynt ymuno'n ffurfiol.

Hefyd mae Llwybrau at Ffermio wedi creu fframwaith ar gyfer e-siop ar y Rhwydwaith Bwyd Agored, er nad yw hon wedi agor eto. Mae'r amserlen wythnosol yn gadael i gynhyrchwyr nodi beth sydd ganddynt ar gael yr wythnos honno, i brynwyr archebu'n unol â hynny ac i ddosbarthiadau gael eu trefnu ar y cyd. Y bwriad oedd cyfyngu prynu i fusnesau manwerthu a lletygarwch ond mae argyfwng Covid-19 wedi codi'r posibilrwydd o'i hagor i'r cyhoedd yn gyffredinol, yn yr un modd â Hyb Bwyd Aberystwyth.

Ar ddiwedd y comisiwn, cytunwyd y dylid ailwampio Grŵp Llywio'r prosiect Llwybrau at Ffermio er mwyn mynd â chlwstwr bwyd a diod Biosffer Dyfi rhagddo. Bydd y rheini sy'n cofrestru gyda brand Blas Dyfi yn cael eu hannog i fynychu cyfarfodydd ond bydd y rhain yn agored hefyd i bobl eraill sydd â diddordeb mewn datblygu'r economi fwyd leol.

Ar raddfa ehangach, arweiniodd ecodyfi gais i ffrwd ariannu ENRaW Llywodraeth Cymru ar ran Mach Maethlon, Bwyd Dros Ben Aber ac Ysgol Bro Hyddgen. Os yw'n llwyddiannus, bydd yn darparu cryn dipyn o gapasiti i ddatblygu mwy o gydnerthedd bwyd yn yr ardal.

Fodd bynnag, mae argyfwng Covid-19 wedi newid llawer o bethau, gan gynnwys amlygu breuder cadwyni cyflenwi'r brif ffrwd ac ysgogi'r galw am fwyd lleol. Mae gweithredu gwirfoddol a masnachol i gynyddu swmp ac amrywiaeth cynhyrchu lleol wedi ffrwydro, yn bennaf o dan faner Planna Fwyd!. Mae'r criw llac yma o selogion yn penderfynu a ddylent fod yn annibynnol neu'n rhan o Mach Maethlon.

<https://plannafwyd.machynlleth.cymru>

Yn y cyfamser, ar sail gwybodaeth am y gorffennol, mae prosiect ecodyfi Ffermio Cymysg: Hanesion a'r Dyfodol, yn parhau i ysgogi sgysiau am a ddylid ailgyflwyno plannu cnydau i rai cynlluniau fferm a sut, boed ar gyfer porthiant neu i bobl eu bwyta.

<https://www.biosfferdyfi.cymru/ffermio-cymysg-hanesion-ar-dyfodol>



Mae cyfyngiadau Covid-19 yn golygu bod y cynnig i adeiladu ar y prosiect peilot Gŵyl Fwyd a Ffermio a gynhaliwyd ym Mrynuchel yng Nghwmlline 10 Awst 2019 wedi gorfod cael ei ohirio. Gellir datblygu'r digwyddiad yma ar y cyd â Biosffer Dyfi. Ar ben hynny, mae cynhyrchwyr yn gweld y potensial ar gyfer gŵyl fwyd ar dir y Plas, Machynlleth. Er i'r farn amrywio ynglŷn â'r adeg orau o'r flwyddyn am hyn, ni fyddai'n cael ei chynnal ym mis Awst a byddai'n osgoi gwrthdaro â Gwyliau Aberdyfi, Aberystwyth a Môr i'r Tir.

Gall cydweithredu yn y dyfodol gynnwys 'Llwybr' rhithiol/printiedig.

E. Atodiadau

1. Blas Dyfi – Siarter. Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
2. Blas Dyfi – Meini prawf ar gyfer cymryd rhan. Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Andy Rowland

andy@ecodyfi.cymru

Mehafin 2020

